# DINESYDD
## GORFFENNAF-AWST

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1982

RHIF 88


# GYDA LWC - HEOL PLWCA!

## Y CLWB CYMRAEG GAM YN NES

Bydd rhaid i Gymdeithas Clwb Cymraeg Caerdydd godi £120,000 i agor clwb Cymraeg yn y ddinas. Fe godwyd £15,000 yn barod gan y Gymdeithas a gobeithir cael y gweddill fel a ganlyn: dau o fragwyr lleol - £60,000, h.y. £30,000 yr un; banc - £35,000; sy'n gadael £10,000 i'w godi gan yr aelodau a'r cefnogwyr.

Yn gynnar ym mis Gorffennaf, disgwylir cael gwybod a ydy'r bragwyr yn fodlon cefnogi'r fenter ac os felly bydd y Gymdeithas yn mynd ymlaen i brynu rhydd-fraint adeilad yn Heol Plwca ger Y Rhodfa yn Y Rhath.

Y camau nesaf fydd gwneud cais am ganiatâd cynllunio cyflawn, am drwydded clwb, ac hysbysu am adeiladwyr i wneud y gwaith o chwalu ac ail-adeiladu. Bydd hyn i gyd yn cymryd ryw bedwar mis ac wedyn bydd gwaith yr adeiladwyr yn parhau dros gyfnod o wyth mis.

Yn ystod y rhan gyntaf o'r gwaith paratoi bydd y gymdeithas yn brysur yn codi'r £10,000 sydd ei eisiau. Mae'r gymdeithas wedi lansio apêl am gant o bobl i ddod yn aelodau oes o'r Clwb drwy gyfrannu £100 yr un - mae 'na 135 o aelodau oes yn barod. Amcan y Clwb ydy gwasanaethu fel canolfan i Gymry ardal Caerdydd er hyrwyddo diwylliant, hamdden a gweithgareddau cymdeithasol eraill.

Dylai'r rhai sydd eisiau dod yn aelodau oes'yn y modd a ddisgrifir, gysylltu ag Ysgrifennydd CCCC -

Nic ap Glyn, 135 Keppoch Street, Y Rhath, Caerdydd. (Ffôn: 497414).



CYFARFOD CYFFREDINOL Y GANOLFAN

NOS FERCHER, 21ain GORFF-ENNAF, am 7.30 p.m.

CROESO I BAWB

Fuoch chi yng Nghanolfan yr Urdd erioed. Dwi wedi cael syndod mawr yn ddiweddar o glywed fod yna rai Cymry Cymraeg yng Nghaerdydd heb unrhyw syniad o gwbl lle mae'r Ganolfan. Wel yn Treganna, Canton, yn Heol Conwy, y gwelir y Ganolfan, gyferbyn â Chaeau Llandaf.

Mae'r lle yn fwrlwm o weithgaredd amrywiol drwy gydol y flwyddyn a bellach mae gyda ni yno un o siopau llyfrau Cymraeg gorau Caerdydd, sef Taflen. Oes, fe gredaf i fod tipyn o siap ar bethau yno a dweud y gwir ar hyn o bryd. Os am weld a chlywed mwy am y Ganolfan, byddem yn dra diolchgar o'ch gweld yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac efallai y cewch baned o goffi cyn troi am adre.

Dewch da chi - mae'n werth dod pe bai dim ond i weld ein drws ffrynt newydd - o holl ddrysau'r Urdd drwy'r wlad, dyma'r newydda ac rwy'n siŵr, y druta!

John Albert.

# GOLYGYDDOL

Mae talcen go galed yn wynebu Cymdeithas Clwb Cymraeg Caerdydd os yw'r adeilad a welir ar ein tudalen flaen y mis hwn i gael ei weddnewid yn dabernacl gysurus i gyfeillachu a chael cyfeddach ynddi. Anogir bawb a all ateb apêl y Gymdeithas i fynd i'w boced yn ddiymdroi.

Nid oes dim byd newydd mewn apêl am arian, wrth gwrs. Mae pob Cymro Cymraeg yn hen gyfarwydd â gorfod mynd i'w boced byth a hefyd i gefnogi ysgolion ac eisteddfodau a chanolfeini tebyg sy'n cynnal ein diwylliant a'n hiaith. Ond mae apêl am arian i godi clwb i'r un perwyl yn rhywbeth newydd.

Bydd yn taro tant anghysurus i lawer, mae'n siŵr, ond os yw'r clwb arfaethedig i gyflawni ei amcanion yn anrhydeddus bydd yn rhaid iddo ennill ei blwyf ar sawl ffrynt. Rhaid i'r cwrw fod yn dda yn y lle cyntaf. Oni werthir digon o'r stwff yn y flwyddyn gyntaf bydd y dyfodol yn go ddu. Ar y llaw arall, mae gofid ymhlith llawer na fydd y lle yn ddim ond ogof fyglyd, feddwol, i glic o alcoholiaid. Y ddadl yw y dylai fod lle yno hefyd i Ferched y Wawr i ddod am sieri bach syber. A digon teg.

Gwyddys eisioes fod cynlluniau manwl ar y gweill i gynnal rhaglen amrywiol o gymdeithasau ac ati yno. Ar ôl i'r lle agor, diau y daw pob math o weithgareddau eraill posib i'r golwg. Y gwir yw y bydd cyfrifoldeb ar bob aelod i wneud y lle'n llwyddiant. Rydym i gyd yn euog o encilio a grwgnach mewn corneli. Os nad yw ofnau egraf y dirwestwr mwyaf pybyr i'w gwireddu, rhaid i bawb sy'n ymhel â'r clwb hwn fwrw ati mewn ysbryd eangfrydig ac amlochrog. Dyna'r ysbryd a welwyd hyd yma yn hanes y Gymdeithas a dylai barhau i lywio pethau wrth i'r clwb ddod yn realiti o fewn y flwyddyn nesaf.

Nid sôn am ysbryd gweithredu yr ydym yn unig. Mae galw am weld yr ysbryd ar waith o du'r pensaer, y stiward a'r pwyllgor rheoli. Rhaid creu o fewn yr adeilad hwn naws sy'n apelio at groesdoriad eang o bobl, o ran oedran a chwaeth. Ni fydd hynny'n hawdd ond dyna'r sialens a wyneba'r Gymdeithas o fewn y flwyddyn neu ddwy anodd sydd o'i blaen.

O sefydlu'r croeso catholig hwn, gall agor Clwb Cymraeg Caerdydd fod y datblygiad pwysicaf (a mwyaf cynhyrfus) ym mywyd Cymraeg y ddinas er sefydlu'r Aelwyd. Mae gobeithion pawb ohonom yn fawr, ond mae'r pris o fethu yn ein hamcanion yn fwy!

*****

Ar ôl bod allan am lymaid fin nos, nid oes dim yn well gan amryw na chael orig fach o deledu cyn clwydo. Ni fydd oriau o'r fath ar S4C yn ôl a ddeallwn.

Gwrthodwyd cefnogaeth i ddrama newydd gan Michael Povey yn ddiweddar am na fyddai awr addas ar gael i'w darlledu. (Y ddrama yn anaddas i'r oriau brig, yn ôl y sôn).

Ceir darpariaeth helaeth yn Saesneg - hyd oriau mân y bore ar nos Wener a nos Sadwrn. Sioeau siarad a hen ffilmiau, gan mwyaf.

Wrth estyn ein cydymdeimlad â Michael Povey yn y mater hwn, tybed na chaiff y gweddill ohonom roi och o siom yn ogystal.

Cawn fynd allan am beint yn Gymraeg cyn bo hir, mae'n bur bosibl, ond mae'n ymddangos mai yn Saesneg yn unig y cawn fynd i'r gwely o hyd. Trueni!

AR WERTH

Sgidia' peldroed 'Tom Finney mis-cics! Ymholer â Rhys Fôn, Prifathro newydd Brongest, Dyfed.

Gorffennaf:

21, Mercher, 7.30 p.m. Cyfarfod Cyffredinol Canolfan yr Urdd, Heol Conwy. Dewch yn llu. Croeso mawr i bawb.

Medi:

PARTI DECHRAU'R TYMOR er budd Y DINESYDD. Gwybodaeth pellach yn y rhifyn nesaf. Cofiwch amdano.

16, Iau, Cylch Cinio Merched Caerdydd yn Bwyty'r Thatchers, Llanishen. 7.30 p.m. Siaradwraig: Ruth Parry, BBC; 'Y Fferm Iechyd'. Cysyllter â Mari Price, Caerdydd 568332.

22, Mercher, 7.30 p.m. Festri Heol y Crwys, Darlith : GARDDIO MEWN DINAS, Richard Bowering. £1 (gan gynnwys paned o de).

25, Sadwrn, Ffair Hydref yn Ysgol Glantaf, 2 p.m. Cronfa Dyfodol y Crwys.

Tachwedd:

11, Iau, Cylch Cinio Merched Caerdydd yn Bwyty'r Thatchers, Llanishen. 7.30 p.m. Siaradwr: Havard Gregory.

MERCHER Y WAWR - HYSBYSEB PWYSIG CENEDLAETHOL I'N HOLL AELODAU

Bydd ein cyfarfod yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe fore Mercher, Awst y 4ydd yn gorfod dechrau chwarter awr ynghynt nag arfer, sef am 9.45 (chwarter i ddeg) yn lle am ddeg o'r gloch. Eleni bydd Megan Creunant Davies yn trosglwyddo'r Llywyddiaeth i Rebecca Powell a bydd Rhanbarth Gorllewin Morgannwg yn cyflwyno rhaglen ar hanes bro'r Eisteddfod a'n gobaith am y dyfodol. Mae pabell gennym ar y maes lle mae croeso i bawb - yn aelodau ac yn gyfeillion - i droi i mewn am gwpanaid/dysglaid o de a chwrdd â'i gilydd, y cyfan yng ngofal Rhanbarth Gorllewin Morgannwg.

Mair Elvet Thomas,
Trefnydd Cenedlaethol.

# CÔR CANOLFAN CAERDYDD

Mae blwyddyn gyfan bellach ers i Gôr Aelwyd Caerdydd benderfynu newid ei enw ac ymddangos ar ei newydd wedd fel Côr Canolfan Caerdydd.

Bu hon yn flwyddyn lwyddiannus a hapus i'r Côr - gyda nifer o aelodau newydd yn ymuno, a hen aelodau yn dychwelyd. Cawsom wisgoedd newydd hefyd a'r merched yn edrych yn drawiadol a deniadol yn eu sgertiau coch a'u blowsus gwynion (heb sôn am y bechgyn!)

Uchafbwynt y flwyddyn i'r Côr oedd y cyngerdd a gynhaliwyd yng nghapel Ebeneser ym mis Ebrill, pan berfformiwyd y Greadigaeth gan Haydn. Buom yn fentrus gan gael unawdwyr gwadd atom, ac fe lwyddwyd i lwyfannu cyngerdd o safon. Gobeithiwn gynnal un cyngerdd mawr tebyg y flwyddyn nesaf.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliom nifer o nosweithiau llawen mewn gwahanol ardaloedd yn Ne Cymru. Hoffem ehangu'n gorwelion a mentro i'r Gogledd y flwyddyn nesa os daw y cyfle!

Bu'r Côr yn cystadlu hefyd yn ogystal a chynnal cyngherddau gan ennill gwobrau yn yr Wyl Gerdd Dant ac yng Ngŵyl Fawr Aberteifi.

Buom felly yn gweithio'n galed drwy gydol y flwyddyn dan arweiniad medrus Islwyn Evans sydd â'r swydd (nid hawdd!) o gadw trefn arnom. Ond yn ogystal â'r ymarfer cyson, cafwyd llawer o hwyl a mwynhad, gan gynnwys dwy daith penwythnos - un i Sir Benfro ac un i Sir Aberteifi.

Mae'r Côr yn cyfarfod bob nos Iau am 7.30 o'r gloch yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy a byddwn yn ailgychwyn ymarfer y tymor nesaf ar y 9fed o Fedi. Bydd croeso i unrhyw un sydd â diddordeb i ymuno â ni bryd hynny.



Côr Aelwyd Caerdydd a ddaeth yn ail yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhwllheli.


HTV CYMRU

## Adran Materion Cyfoes

### Cynhyrchydd

Mae HTV angen cynhyrchydd ychwanegol i weithio fel aelod o dîm o gynhyrchwyr fydd yn darparu rhaglenni materion cyfoes rhyngwladol i S4C.

Disgwylir i'r sawl a benodir fod wedi derbyn addysg dda, ac wedi cael profiad sylweddol yn y byd darlledu. Bydd angen meddwl treiddgar a'r ddawn i ddadansoddi sefyllfa a'i chyfleu mewn ffordd ddyfeisgar a deniadol.

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn berson sy'n medru cydweithio'n rhwydd gyda phobl eraill, a ganddo'r gallu i arwain tîm o newyddiadurwyr. Mae Cymraeg rhugl ar lafar ac ar bapur yn hanfodol i'r swydd.

### Gohebydd

Mae angen gohebydd ychwanegol i weithio ar rhaglenni newydd 'Y Byd ar Bedwar', sef tair rhaglen wythnosol fydd yn cael eu darparu gan HTV ar gyfer gwasanaeth materion cyfoes rhyngwladol S4C.

Disgwylir i'r sawl a benodir fod wedi derbyn addysg dda ac wedi cael profiad o weithio fel gohebydd ar radio, teledu neu ar bapurau newydd. Bydd angen meddwl treiddgar a'r ddawn i ddadansoddi sefyllfa ynghyd â'r gallu i'w cyfleu mewn modd ddeiniadol i gynulleidfa eang.

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus i ymchwilio yn drylwyr i faterion cartref a thramor, ac i ohebu yn y stiwdio ac allan yn y maes ar ffilm.

### Newyddiadurwyr

Mae HTV yn chwilio am ddau berson arbennig iawn i ymuno â thîm a fydd yn darparu gwasanaeth materion cyfoes rhyngwladol ar gyfer S4C o Dachwedd 1982.

Disgwylir i'r sawl a benodir fod wedi derbyn addysg dda, ac yn medru dangos gwybodaeth eang o'r byd a'i bethau. Bydd angen meddwl treiddgar a'r ddawn i ddadansoddi sefyllfa a'i chyfleu mewn ffurf ddeniadol i gynulleidfa eang.

Disgwylir i'r ymgeiswyr llwyddiannus ymchwilio yn drylwyr i faterion cartref a thramor. Disgwylir iddynt hefyd i weithio ar raglenni'r Dydd a'r Wythnos tan Hydref 1982 yn ogystal â chyfrannu at waith cynllunio ar gyfer y gwasanaeth newydd. Bydd profiad o ddarlledu neu newyddiaduriaeth yn fanteisiol.

Cyflog i'w drafod yn unol â chytundebau'r NUJ.

**Dylai ymgeiswyr cymwys, mab neu ferch, anfon manylion llawn a manwl am eu gyrfa, addysg ag unrhyw brofiad perthnasol ar gyfer y swydd gan nodi DI/68 at:- Y Rheolwr Staffio, HTV Cymru, Y Ganolfan Deledu, Caerdydd. CF1 9XL.**

HTV CYMRU

## Cynorthwydd-Ydd Cynhyrchu/Ysgrifennydd Dan Hyfforddiant

Mae arnom angen Cynorthwydd-ydd Cynhyrchu/Ysgrifennydd Dan Hyfforddiant i weithio yn ein stiwdio yn Caerdydd.

Golyga'r swydd weithio gyda cynhyrchydd/cyfarwyddwr teledu yn y swyddfa, yn yr oriel gynhyrchu ac yn achlysurol ar raglenni teledu allanol. Dylai'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar bersonoliaeth allblyg, mwynhau trefnu a'r gallu i weithio yn hamddenol heb gyfarwyddid mewn awyrgylch brysur. Mae'r gallu i deipio yn gyflym a chywir yn angenrheidiol yn ogystal a gwybodaeth drylwr o'r iaith Gymraeg.

Cyflog yn ystod hyfforddiant: £4.706 y flwyddyn.

Cyfleusterau gweithio ardderchog, ynghyd a chynlluniau pensiwn a salwch etc.

**Dylai ymgeiswyr, mab neu ferch, anfon am ffurflen gais gan amgau amlen hunan-gyfeiriedig (nid oes angen stamp) gan nodi Cyfeirnod DI/35 at: Y Rheolwr Staff, HYV Cymru, Y Ganolfan Deledu, Caerdydd CF1 9XL.**




**Champers, Heol Santes Fair**

Ger lôn gul Soho-aidd Caroline Street, mewn rhes o glybiau nos ym mhen isaf Heol Santes Fair y dowch chi o hyd i dŷ bwyta a bar gwin Champers. Mae'r lle yn edrych yn debycach i glwb nag i dŷ bwyta ac yn wir gallwch lymeitian winoedd a gwirodydd wrth y bar hir heb fwyta pryd yno. Ond y prif atyniad, i'm tyb i, yw'r bwyd poeth a blasus a geir yno a'r awyrgylch a greir gan res o ffug-ogofâu lle y mae disgwyl ichi encilio a bwyta.

Rydych chi'n helpu eich hun i bowlen o salad - dewis go dda o lysiau a saws vinaigrette ar ben popeth. Ar yr un pryd rhowch eich archeb wrth y bar am fwyd poeth - stecen, kebab, hamgurgar, golwyth ac ati - a gymerir i'w goginio ar 'charcoal grill'. Mae popeth yn weladwy o ran y bwyd a'i baratoi ac mae hynny bob amser yn rhoi hyder i giniawr nerfus.

Ar ôl ichi ddewis 'ogof' wrth eich bodd mae disgwyl ichi aros rhyw ddeg munud neu chwarter awr am elfen boeth eich pryd. Fe ddaw bob amser ar blât anhygoel o boeth ac i gadw cwmni i'r cig bydd picl a thatws yn eu crwyn. Cefais y bwyd bob amser yn ddi-flas ond mae melin bupur anferth wrth law i'w wella os mynnwch.

Bum yno rhyw hanner dwsin o weithiau yn ystod y flwyddyn diwethaf ac ni chefais achos i gwyno eto. Aeth Cwmni Di-enw yno ar ôl llwyddiant ei gynhyrchiad o 'Bore Fory Ddaw'. Mae'r pwyslais ar hamddena, siarad a llymeithian, a bu bron iawn i bore fory ddod ar yr achlysur hwnnw!

Ond ysywaeth, rhaid oedd camu allan i Heol Santes Fair a gwynt y sglodion seimllyd o Caroline Street yn gwneud i bawb hiraethu am eu hogof.

Cyst kebab a salad tua thair punt a stecen a salad tua chwech.

Dafydd Cadog.

**TAFLEN AR FAES YR EISTEDDFOD.**

Fe fydd gan TAFLEN stondin ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe eleni. Bydd y llyfrau a'r recordiau newydd a gyhoeddir cyn yr Eisteddfod i'w cael yno yn ogystal â detholiad sylweddol o'r stoc arferol.

Golyga hyn na fydd TAFLEN ar agor yng Nghanolfan yr Urdd yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Gobeithir na fydd hyn yn arbennig o anghyfleus i gwsmeriaid.

Os nad ydych wedi mentro i ymweld â TAFLEN hyd yn hyn, beth am fynd am dro i'w gweld yng Nghanolfan yr Urdd. Cewch eich siomi o'r ochr orau gan y dewis helaeth o lyfrau, recordiau, cardiau a chasetiau. Cofiwch - wrth brynu eich llyfrau a recordiau yn TAFLEN, rydych yn cyfrannu yn uniongyrchol at y gost uchel o gynnal Canolfan yr Urdd yng Nghaerdydd.

Cyfamodir pob elw a wneir gan TAFLEN i Ganolfan yr Urdd.

HTV CYMRU

## Ysgrifennydd/ Ysgrifenyddes Adran Materion Cyfoes

O ganlyniad i'r ehangu gogyfer ag S4C, mae arnom angen ysgrifennydd/ysgrifenyddes i weithio i'r cynhyrchwyr rhaglenni materion cyfoes. Dylai'r ymgeisydd llwyddianus fwynhau trefnu a gweithio'n egniol mewn awyrgylch brysur, weithiau heb gyfarwyddyd. Yn ogystal a'r gallu i deipio, disgwylir gwybodaeth drylwyr o'r Gymraeg a'r Saesneg a diddordeb byw mewn materion y dydd.

Cyflog £4,986 y flwyddyn.

Cyfleusterau gweithio ardderchog ynghyd a chynlluniau pensiwn a salwch.

**Dylai ymgeiswyr cymwys, mab neu ferch, anfon am ffurflen gais ac amgau amlen hunan-gyfeiriedig (nid oes angen stamp) gan nodi Cyfeirnod DI/35 at: Y Rheolwr Staff, HTV Cymru, Y Ganolfan Deledu, Caerdydd CF1 9XL.**

# CARDIAU NADOLIG

★ **4 Cynllun deniadol gan blant Caerdydd.**


★ **4 Lliw gwahanol.**

**AR WERTH YN FUAN.**

★★★★★★★★★

**GWERTHIR ER BUDD**

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, CAERDYDD A'R CYLCH 1985**



Plant Lansdowne yn orfoleddus yn yr Urdd. Parti Dawns Ysgol Lansdowne a ddaeth yn ail ym Mhwllheli.

CRONFA'R DINESYDD

Amgaeaf rodd o £ : i Gronfa'r Dinesydd.

Enw: ......................................

Cyfeiriad: ................................

...........................................

Anfoner at Mr. Emrys Jarman, 198 Hillrise, Llanedeyrn, Caerdydd.

NEU, OS DYMUNECH, GELLWCH GYFRANNU I'R GRONFA TRWY ORCHYMYN BANC

ARCHEB BANC

At y Rheolwr .........................(Banc)

.................................(Cyfeiriad)

Dymunaf i chi dalu i Fanc Masnachol Cymru, 114-116 Heol y Santes Fair, Caerdydd i gyfrif PWYLLGOR RHEOLI Y DINESYDD, rhif cyfrif 40985012, ar unwaith, ac ar y dydd cyntaf o fis ......... bob blwyddyn wedi hynny oni ddiddymur yr archeb gennyf mewn ysgrifen y swm o ...............(mewn geiriau) £.....(mewn ffigurau).

Arwyddwyd: ................................

Cyfeiriad: ................................

Rhif ac enw'r Cyfrif ......................

Dylid anfon y ffurflen uchod at Mr. Emrys Jarman, Trysorydd Y Dinesydd, 198 Hill Rise, Llanedeyrn, yn hytrach na'i anfon at eich Banc.

CYNLLUN 'RHOI CLUST'

Ers rhai wythnosau bellach daeth y cerdyn bach plastig gyda llun y glust arni i gadw cwmni i'r cardiau banc sydd yn y waled. Cynllun a ysgogwyd gan y cymdeithasau cenedlaethol sy'n gofalu am fuddiannau y byddar a'r prin eu clyw a roddodd fod i'r cerdyn.

Y syniad yw gofyn i siopau, cymdeithasau, a chi a fi, i roi clust i anghenion y rhai sy'n brin eu clyw. Mae'n bosibl cael sticer i'w ddangos mewn siop neu westy, gyda'r sticer fe ddaw taflen fach o gyfarwyddiadau ar sut mae helpu'r rhai sydd mewn angen. Y prin eu clyw sydd i gario'r garden fach blastig sydd yn gofyn am help. Ar gefn y garden mae pedair brawddeg sy'n rhoi cyfarwyddyd ar sut i helpu. Yn hyn o beth mae'n hawdd rhoi clust.

Felly os ydych yn brin o glyw, neu os ydych am helpu y rhai sy'n dioddef felly, mae cerdyn gofyn a sticer parodrwydd ar gael. Y cyfeiriad am fwy o fanylion ynghylch y cynllun yw: The Sympathetic Hearing Scheme, 6 Great James St., London WC1. Gobeithio y bydd llwyddiant i'r cynllun gan fod prinder clyw yn gwneud bywyd cymdeithasol yn anodd. Ac i chi sy'n brin o glyw, gofynnwch am help.

Mallt Anderson.

Llongyfarchiadau i Ann Dilys Jones ar ei phenodiad yn Swyddog Mathemateg gyda'r Cyd-bwyllgor Addysg. Ar hyn o bryd mae'n Bennaeth Mathemateg yn Ysgol Rhydfelen.

# Y GOLOFN GAIN gan ARFON

Cystadleuaeth ryfeddol oedd honno a drefnwyd yn Eisteddfod Wrecsam pan ofynnwyd am gasgliad o englynion beddau. Dros y blynyddoedd diwethaf hyn daeth y gweisg â chnwd o'r casgliadau hynny i olau dydd, rhai fel 'Englynion Beddau Dyffryn Ogwen' (gol. J. Elwyn Hughes), 'Llais y Meini' (gol. G.T.Roberts), 'Mynwenta' (gol. Gomer M. Roberts), 'Awelon, Dewch i Wylo' (Mynwentydd Dyffryn Conwy, gol. Margaret a Charadog Roberts) a 'Dagrau Gwerin' (Mynwentydd Eifionydd, gol. Emrys Jones). Maent yn gyfrolau difyr iawn i'w darllen.

Un peth y sylwais arno wrth fynd trwyddynt oedd amled yr enwir y meirwon yn yr englynion eu hunain, yn enwedig yn y rheini a luniwyd yn y ganrif ddiwethaf. 'Nawr gŵyr y cyfarwydd mor anodd y gall cynnwys rhyw enw neu air penodol fod ar dro, ond ymddengys na chai'r hen fechgyn fawr o drafferth wrthi. 'Roedd hyn yn arbennig o wir wrth iddynt drin yr hen enwau Cymreig cysefin. 'Gwr hoffus' oedd pob 'Gruffydd' yn ei fedd, âi pob 'Ifan' i'r 'Nefoedd' ar ei ben, 'roedd marw pob 'Huw' yn gaffaeliad mawr i'w farwnadwr, ac 'roedd pob 'Meri Elin' yn gofyn amdani. Deuid i ben yn rhyfeddol hefyd gydag enwau o'r Hen Destament e.e. 'Abram gadd alwad ebrwydd' neu hwn ar fedd Enoch Jones ym mynwent Glanogwen, Bethesda:

Cryf oedd mewn aidd crefyddol - fel Enoch
Ei ragflaenydd duwiol;

Ond beth am y ffurfiau anghyfiaith fel Jones a Davies a Williams a adawodd y ddeunawfed ganrif yn bla ar hyd y plwyfi? Wel, 'roedd angen ychydig o ddyfeisgarwch gyda'r rhain. Gellid talfyrru ychydig. Er enghraifft ar fedd Elias Williams yn Llanllechid ceir:

Yma ein hen gydymaith, - E. Williams,
Noswyliodd mewn gobaith;

Ynteu gellid newid tipyn ar yr enw fel y gwnaeth Dewi Arfon wrth goffau John Jones, Talysarn:

Clogwyni coleg anian - wnaeth ryfedd
Athrofa i Ioan;

Ond o newid, newid go iawn amdani ynte? Ym mynwent Llandygai ar fedd John a Margaret Owens, plant yr Hen Dyrpeg, ceir:

Mae'n y llan yma'n llonydd -In mawrgri
John a Margaret Gruffydd.

Ac yn yr achos hwn pwy a wêl fai ar y bardd, ag 'Owens' mor anodd i'w odli?

Ar dro gall cynnwys enw'r ymadawedig droi'n anfwriadol ddigri. Fe'm caf fy hun yn gwenu uwchben y llinellau agoriadol hyn: 'Ein Tad, cymeraist Teddy....' ac 'Wele isod ddwy Eliza....', ond, o bob llinell agoriadol, dichon mai'r un fwyaf ffrwydrol yw hon:

'Tomos, a wyt ti yma?'

Nid oes ond gobeithio mai cwestiwn rhethregol ydyw.

Ar dro arall, fodd bynnag, gall cynnwys enw neu enwau'r meirwon syfrdanu dyn fel yn englyn ardderchog J. Roger Owen, Bwlchderwin, i blant Nant Cwmbrân, Pantglas, ym mynwent Tai Duon, Pantglas:

Marwolaeth Mair a Willie - a Rhisiart
Wna i reswm dewi;
Ond ffydd ddichon fodloni
A gwel'd trefn - mewn galw tri.

Dyna ddigon o grwydro mynwentydd am y tro. Un o ffyddloniaid y golofn hon yw'r hen frawd annwyl Llewelyn Morgan. Daw ataf ar ôl ambell oedfa nos Sul neu nos Ddifiau a gwthio dernyn o bapur i'm llaw. Felly'r tro hwn dyma englyn ganddo i'r

## BYD O BEL DROED

Mi wn fy mod yn torri f'addewid yn syth bin yn y llith hwn. Wedi rhoi fy ngair y mis diwethaf fy mod wedi rhoi'r gorau i son am beldroed tan o leiaf ddechrau'r tymor nesaf, ond breuddwyd ffŵl oedd mentro sôn am y fath beth a hithau yn gyfnod pwysicaf peldroed ym mhedwar cwr y byd. Sôn yr ydwi wrth gwrs, fel pe bai yn ddiarwybod i bob merch yng Nghymru ben-baladr, am gystadleuaeth Cwpan y Byd ar dir y Costa del Sbaen. Mis crwn cyfan o beldroed o amser brecwast, drwy'r siesta, hyd amser swper. Pedwar ar hugain o dimau yn cynrychioli pob cyfandir dan haul a lleuad, yn eu dillad amryliw, yn cicio pob peth a feiddith symud yng ngwres llethol y wlad arbennig hon. Pedwar ar hugain o dimau am y tro cyntaf yn hanes y gystadleuaeth, a hynny medd rhai am mai dyna ffordd Joao Havelange o sicrhau ei le fel Llywydd FIFA. Pedwar ar hugain o dimau yn y gystadleuaeth nesa hefyd medd ef, yng ngwlad dlawd Columbia yn 1986. Cawn weld, bydd digonedd o dorri a chroes-dorri ar gynnwys y gemau eleni cyn hynny, a bydd perff-ormiadau'r timau o'r gwledydd llai-cydnabydd-iedig yn cael eu hastudio yn go fanwl gan y gwybod-usion. Ac o mae yna wybodusion yn y gem - rheseidiau ohonynt yn wynebau chwerw neu lon, dibynnu pwy fydd yn chwarae neu ar y blaen, yn fwy na pharod i gynnig cyngor i hwn neu arall neu bawb a phob un fel ei gilydd. Pob un hefyd yn barod i newid ei feddwl yn gyfangwbl o ddechrau, hyd ganol, tan ddiwedd y gêm, ac yn siŵr erbyn

## RHWD

Ar domen fy annibendod - y rhwd
Wrth reddf wnaeth y difrod;
Yn y cloi ni ddaw un clod
I ardal mewn segurdod.

Llewelyn Morgan

Dylid anfon eich cyfran-iadau i 'Penmaen', 31 Heol Don, Yr Eglwysnewydd. CF4 2AR.

hynny o fod wedi dewis yr enillydd, neu'n sicr o fod wedi egluro'n fanwl yn eu Saesneg coeth beth a ddylent fod wedi ei wneud i sicrhau buddugoliaeth. Mae 'Pundits' y gêm yn siŵr o un peth serch hynny, sef y ffi ar ddiwedd eu mynych berfformiadau yn ystod y cyfnod nesaf yma - digon i Brian Clough gael mêt newydd yn lle Peter Taylor, ac i John Bond gael prynu set arall o ddannedd gosod - un i ffitio yn iawn y tro yma.

A'r chwarae - cymysglyd rhan helaethaf o'r amser, gwael ar adegau, ac ambell i fflach o ddewiniaeth pob hyn a hyn. Timau enwog megis Brasil, yr Ariannin a Gorllewin yr Almaen, a thimau o wledydd llai megis Honduras, El Salvador, Cameroons ac Algeria. Mae chwaraewyr megis Bellonmi (Algeria), Al Anbari (Kuwait) a Bettancourt (Honduras) serch hynny wedi ennill parch a bri'r gwybodusion ochr yn ochr a mawrion fel Zico, Maradona a Rummenigge.

Pwy â ŵyr na fydd rhyw reolwr craff o Brydain neu Ewrop wedi cymeryd sylw o hyn i gyd ac y gwelwn un o'r chwaraewyr yma yn ymddangos ar feysydd mwy breision yn ystod y tymor sydd i ddod. Cofiwch am hynt Ardiles a Villas wedi'r Cwpan Byd diwethaf.

Cawsom ein hamddifadu o'r gêm agoriadol oherwydd dewrder a gwrhydri'r Awdurdodau - y Teledu Annibynol yn mynnu glynu wrth eu dafnyn olaf o waed o helynt y Malvinas yn enw rhyddid - ac yn y diwedd yn colli'r sgwp fwyaf o weld y gorthrymwr yn cael chwip din yng ngwydd y byd gan dîm gwlad Belg. Crechwenai Brian Moore a Jimmy Hill tra'n trafod y canlyniad - ond beth arall sydd i'w ddisgwyl gan y ddau greadur dinod rheini ynte.

Ac uchafbwyntiau'r gystadleuaeth hyd yma, heblaw am y canlyniad anhygoel hwnnw pan drechodd Algeria dim Gorllewin yr Almaen o 2 gôl i 1. Wel gwyddoch eisoes i dîm Hwngari ennill o 10 gôl i 1 yn erbyn glewion El Salvador - record o sgôr yn rowndiau terfynol y gystadleuaeth, a Zapata yn cael unig gôl El Salvador. Trueni'r sefyllfa yw'r ffaith i rai aelodau o'r garfan wreiddiol gael eu lladd yn yr helyntion sydd yn rheibio'r wlad ers peth amser. Cafwyd peth doniolwch yn y difrifoldeb hefyd - dau gardyn melyn i aelodau tîm Hwngari, am yfed dŵr ar yr ystlys yn ystod y gêm, a chynrychiolydd FIFA yn dweud fod y dyfarnwr, Uusef Al-Doy yn llygaid ei le yn gwneud hynny. Y tro nesaf, meddai, hwyrach mai yfed 'Coke' neu gael sigaret, neu hyd yn oed cusanu eu cariadon a fynnant ei wneud.

Gwyddoch hefyd mai Bryan Robson, 'seren' Lloegr yn eu gêm gyntaf, a sgoriodd gôl gyflymaf y gystadleuaeth - o fewn 27 eiliad o'r chwiban gyntaf. Tybed a wyddech iddo trwy ei fedr ennill oriawr aur Seiko i'w alluogi i wneud yn well y tro nesaf. Yn yr un gêm yn erbyn Ffrainc, dywedwyd fod Paul Mariner wedi colli 11 pwys, sef tua galwyn o ddŵr, o'i gorff oherwydd y gwres llethol.

O Ogledd Iwerddon y daw'r chwaraewr ieuengaf i chwarae yn y gystadleuaeth. Roedd Norman Whiteside yn 17 mlwydd a 40 diwrnod yn y gêm yn erbyn Iwgoslafia, a thrwy hynny yn gwthio enw'r enwog Pele o'r llyfrau cofnodion am byth - hynny yw os na fynith rhywun wahaniaethu rhwng yr hil rhywbryd yn y dyfodol.

A beth am fod yn broffwyd am unwaith - a chynnig rownd derfynol rhwng Brasil a Gorllewin yr Almaen - tybed!

Cofiwch am eich pytiau newyddion chwaraeon i : 4 Maes y Sarn, Parc Bronllwyn, Pentyrch. (Ffôn: 890039)

Rhodri Gwyn Jones.

## GŴYL YSGOLION MEITHRIN

Daeth y dathlu i ben am eleni eto. Diolch i bawb gyfrannodd mewn amser ac adnoddau i wneud ein Gŵyl yn llwyddiant - y rhieni a'u plant, yr athrawon meithrin, athrawon a phrifathrawon yr Ysgolion Cymraeg a'r llu gwirfoddolwyr eraill gyfrannodd at ein Gŵyl. Gorymdeithiwyd, cafwyd parti na fu ei fath erioed o'r blaen. Cymerwyd Neuadd y Ddinas drosodd gan Robots, a rocedau a daeth technoleg i'r ysgolion meithrin.

Wrth ffarwelio â'r Wyl am eleni, ffarweliwn ag athrawon meithrin a diolchwn iddynt am eu cyfraniad gwerthfawr. Croesawn i'n plith athrawon newydd yng Nghylchoedd meithrin Rhws, Llandaf a Phentwyn. Edrychwn ymlaen at eu cyfraniad hwythau at y gwaith pwysig yma.

Avril Jones.




Band plant ysgol Lady Mary yn tiwnio eu hofferynnau ar gyfer arwain Gorymdaith Mudiad Ysgolion Meithrin trwy strydoedd Caerdydd.

# Y SILFF LYFRAU

dan ofal Philip Wyn Jones.

Roger Boore (addas.) Cyfres Gwledydd, Gwasg y Dref Wen, £1.95 yr un. C.B.A.C. 1. Gorllewin yr Almaen; 2. Yr Eidal.

****

Dwy gyfrol yn y gyfres newydd 'GWLEDYDD' ydy'r ddau lyfr hyn.

Addasiadau ydynt gan Roger Boore o lyfrau Saesneg gan Chris Fairclough. Gan fod Mr. Boore wedi dysgu'r Gymraeg, mae'n gyfarwydd â phroblemau'r dysgwyr.

Yn ôl y broliant ar gefn y ddwy gyfrol, dywedir bod 'pob llyfr yn y gyfres hon yn rhoi disgrifiad difyr a lliwgar o wlad arbennig'. Mae'r ddwy gyfrol hyn, yn wir, yn llawn o luniau gwych o olygfeydd yn y ddwy wlad, eu trefi, eu pobl a'u diwydiannau. Mae'r testun yn syml, heb ormod o ffeithiau i dagu darllenydd ifanc, ac mae'r print yn fras, yn glir ac yn hawdd ei ddarllen. Dywed y broliant hefyd eu bod 'yr un mor addas i Gymry Cymraeg ac i ddysgwyr'. Tybed! Bid siŵr mae'r testun yn addas i'r dysgwyr, ond fe all y darllen fod yn undonog i'r Cymry go iawn oherwydd y diffyg amrywiaeth yn y patrymau brawddegol. Credwn hefyd y gellid gwella'r idiom mewn mannau, e.e., 'Mae Gogledd y wlad yn wastad ac yn dda at ffermio'. Onid gwell fyddai 'ac yn dir ffermio da'? Ac mae rhai o'r lluniau rhagorol yn y ddwy gyfrol yn gofyn am 'captions' mwy manwl. Ond pam yr awn i hollti blew? Yn hytrach, diolchwn yn gynnes iawn i Mr. Roger Boore am roi dau lyfr hyfryd iawn eto yn nwylo'r plant.

Ivor Owen.

Y Parch Emlyn G. Jenkins, Cyfoeth Ei Ras, Gwasg John Penry, £2.00.

********

Am 30 o flynyddoedd roedd enw Emlyn Jenkins a Chapel Ebeneser Caerdydd yn gyfystyr â'i gilydd, ac yn ystod y cyfnod hwnnw pregethodd dros 2,000 o bregethau o'i bulpud yn y ddinas. Dyma gyfrol sy'n peri iddo allu dal i gyhoeddi ei neges yn ein prifddinas.

"Perffeithio ffurf pregeth wrth ei llefaru" a fu'n arfer gan y pregethwr ar hyd y blynyddoedd. Dyna oedd cyfaddefiad yr awdur yn ei Ragair. Gofynna i'r darllenydd fesur llwydd neu aflwydd ei ymgais i bregethu drwy'r gair ysgrifenedig. I bob un a'i clywodd, anodd meddwl y gallai Emlyn Jenkins bregethu o gwbl heb ei wên, a symudiad ystyrlon ei ddwylo chwim, heb sôn am osle'r llais a'r edrychiad dramatig a'i lygaid huawdl.

A lwyddodd?

I geisio ateb dyma droi at bregeth ola a glywais yr awdur yn ei phregethu o bulpud. Pregeth heb gynhesrwydd y gair llafar, ond yr un pennau, y llefaru byw yn ildio i'r ysgrifennu clir. Er i'r grawnwin gael eu cludo ychydig ymhellach o'r wlad lle maent yn tyfu, eto roeddwn yn teimlo fy mod yn gwledda ar "Gariad Duw a'i hedd".

Yn sicr, mae'r llyfr hwn yn werth ei ddarllen i bwrpas defosiwn personol. Mae'n fwynglawdd i'r sawl sy'n cymryd rhan mewn oedfa achlysurol. Yn ddiamau daw â phleser mawr i holl ffrindiau'r awdur. Trueni na fuasai yma i bregethu ei bregethau o bulpud, er hynny, dyma gyfrol gyfoethog. Mae'n werth ei phrynu...ond beth am gaset?

Y Parch. Eirian Rees

Penri Jones, Dan Leuad Llŷn, Pocedlyfrau'r Lolfa, £2.45

*********

Hoffech chi ddarllen nofel gyfoes sydd wedi ei gwreiddio yn bendant yn ein cyfnod ni? Os felly, rhowch gynnig ar y gyfrol hon. Mae'r rhan fwyaf o'r cymeriadau yn fechgyn a merched o gwmpas deunaw mlwydd oed a'u cartrefi yn un o bentrefi glan môr Llŷn.

Cymraeg yw eu hiaith ond mae rhai ohonynt yn fwy ymwybodol o'u Cymreictod na'i gilydd, yn arbennig pan ddônt wyneb yn wyneb â phobl o'r tu allan - Saeson sy'n ceisio traarglwyddiaethu yn y fro, Cymry Cymraeg ar ymweliad o ardaloedd Seisnigedig a dysgwyr sy'n genfigennus o'u cefndir naturiol.

Mae yma fandaliaeth, eisteddfota, rhyw, meddwi a chrefydd, y cyfan yn cael eu cysylltu trwy adrodd un neu ddwy o storiau serch. Ar wahân i ambell drafodaeth wleidyddol mae pob tudalen yn argyhoeddi - gyda chryn dyndra a dwyster ar brydiau.

Mae'r awdur yn athro Cymraeg profiadol ac mae'n siŵr y byddai'n cytuno y gellid bod wedi golygu'r gyfrol â mwy o drylwyredd. Paham, er enghraifft, nad yw'n treiglo rh mewn brawddegau fel y canlynol: 'Does arnoch chi ddim ofn i rhywbeth eich taro chi...

Beth bynnag am hynny, dyma nofel ddarllenadwy a ddylai apelio at gynulleidfa eang.

Philip Wyn Jones.

---

GWYL YSGOLION CYMRAEG 1982

Un o ryfeddodau'r byd addysg yng Nghymru, ac o safbwynt yr iaith, y datblygiad a allai fod y pwysicaf yn ei hanes, yw llwyddiant yr Ysgolion Cymraeg yn y cyfnod wedi'r rhyfel. Digwyddodd hyn led-led y wlad, ac un o'r ardaloedd lle bu'r mudiad ar ei gryfa yw'r tair sir, De Morgannwg, Morgannwg Ganol, a Gwent.

Diwedd y pedwar degau a dechrau'r pumdegau yr agorwyd yr ysgolion cyntaf yn yr ardal hon, yng Nghaerdydd, Treorci, Aberdâr a'r Barri. Erbyn hyn, tyfodd yr ysgolion mewn rhif a maint nes bod nawr dri deg wyth ohonyn nhw, yn ysgolion neu unedau cynradd (34) ac ysgolion uwchradd (4).

parhad tud. 12

# LLWYFANNAU

DIWEDD Y SAITHDEGAU gan

Gareth Meils (Cwmni Sgwâr 1).

Parodi gellweirus oedd y ddrama hon a gyflwynwyd yn Theatr y Sherman ym mis Mehefin gan gwmni newydd, Sgwâr 1. Ni sylweddolais taw parodi oedd hi tan y diwedd yn deg. Y fi oedd ar fai. Roedd yr arwyddbyst yno o'r cychwyn cyntaf. "Blydi llenyddiaeth Gymraeg!" ebe Gwenda, y prif gymeriad, reit ar y dechrau. "Mae disgwyl i bob drama a nofel Gymraeg i gael neges", ebe hi wedyn yn nes ymlaen.

Sôn am arlliw lenyddol y 70au yr oedd hi, mae'n debyg. Nofelau yn sôn am wacter ystyr gwragedd dosbarth canol, diblant. Dramau â phethau mawr i'w ddweud am Gymru. Diau fod yr awdur wedi darllen a gweld ei siâr o'r cyfryw gynhyrchion (neu'n meddwl ei fod wedi gwneud, o leiaf!). Cymerodd y fformat a'i lurgunio â'i ddychan deifiol a chwerw ei hun.

Chwyldroadwraig o ddechrau'r saithdegau yw Gwenda. Mae hi'n briod â phlismon - nid unrhyw hen blismon ychwaith, ond cenedlaetholwr rhadlon â'i fryd ar fod yn Chief Inspector. Maent yn byw ar faesdref gysurus yn edrych dros y Fenai. Treulia Gwenda ei nosau yn disgwyl dychweliad ei gŵr esgeulus - yn union fel Siwan gynt! Ac fel yn ei drama hithau, daw'r gŵr yn ôl yn ddisymwyth yn y diwedd.

I dorri ar ddiflastod sieri prynhawnol Gwenda, daw Haydn i guro ar ei drws. Gweinidog ifanc yw ef â holiadur yn ei law ar ran Cyngor Eglwysi Cymru "sy'n cynnwys yr Eglwys Gatholig". (Roedd honno'n un o'r ychydig frawddegau lle y gwrthododd y gynulleidfa weld y jôc - rhy fuan ar ôl ymweliad y Pab, mae'n debyg).

Roedd Haydn yntau yn fyfyriwr yn yr un cyfnod â Gwenda a daw'n amlwg ei fod yn hen aelwyd y mae'n hawdd iddi gynnau tân arni. Hyd yn hyn roedd jest â bod yn bosib credu'r plot; yn ôl safonau dosbarth canol llenyddiaeth y saithdegau, hynny yw. Ond wedyn daeth datgelu digri a didrugaredd i chwalu'r rhith o realaeth, a hwnnw'n llifeiriant o strôcs anfarwol a atgoffai ddyn o waith Joe Orton. Noson o chwerthin a chrafu lle nad oedd y gynulleidfa yn siŵr iawn ar bwy oedd y jôc yn y diwedd.

Gwnaeth y cynhyrchiad clodwiw lawer i dynnu'r gorau o'r sgript. Roedd Sharon Morgan (Gwenda) yn ei helfen fel yr ast nwydus a oedd yn barhaol 'ar supply'. Argyhoeddai Clive Roberts yntau yn rhagorol fel y gŵr-blismon anghredadwy. Ymdopodd y ddau yn dda â mannau gwanaf y ddrama yn yr act gyntaf, pan orlwythwyd y ddeialog â phregethau. Ond os oedd gwobr i'w chael, Gwyn Parry oedd piau hi. Cododd yr ail act i'w huchelfannau gydag arddeliad. Da ei weld yn arfer ei briod grefft unwaith eto. Mae'n actor rhy gyfrwys i wenu'n ddel ar y teledu a darllen y newyddion ar y radio am weddill ei oes.

Aled Islwyn.

Dylid anfon holl ddeunydd ar gyfer rhifyn Medi at Mrs. N. Couch, 2 Crystal Glen, Y Mynydd Bychan, Caerdydd (753625) erbyn Awst 20fed.


Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau De-ddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol tuag at y rhifyn hwn.

O'r diwedd!! Llongyfarchiadau cynnes i Dafydd Williams (Y Blaid) ar ei ddyweddïad ag Ann Humphreys, athrawes yn Ysgol Gymraeg Penybont.

CANOLFAN YR URDD
HEOL CONWY
TREGANNA
CAERDYDD

TAFLEN

LLYFRAU
RECORDIAU
CASETIAU
CARDIAU



Ar Agor
10.00 – 7.00 (5.00 Sad)
Ffoniwch Eich Archeb
CAERDYDD 27530

COLFON SHAN

Wel wir, dwi'n siwr eich bod chi wedi laru arnai'n sôn am symud tŷ, ond parhau y mae'r saga. Mae'r holl halibalw yn mynd am bryd a'm hamser yn llwyr. A deud y gwir, does gen i ddim amser i eistedd i lawr bora 'ma i sgwennu hwn nac egni i feddwl am destun arall.

Erbyn hyn mae'r tŷ newydd yn dechrau siapio ac yn edrych yn debycach i gartre. Ond am Goed y Pry druan, mae'r fan honno'n mynd yn fwy llwm bob dydd. Rwyf wedi treulio oriau yn mynd a llwythi o stwff draw i'r tŷ newydd. A be sy' ar ôl? Wal BYG efo sgwariau melyn lle'r arferai lluniau a mapiau hongian. Mi gyfrais faint o hoelion oedd angen i hongian lluniau - dros drigian cofiwch. Rhwng y fi, yr hoelion a'r morthwyl bach, mae'r dasg wedi'i chyflawni. Does dim un o'r lluniau'n uchel iawn, 5' 2" and under! Rhaid oedd hongian pob un cyn uched ag y gallwn i eu cyrraedd heb fynd i ben cadair, gan i mi gyflawni'r dasg cyn bod yna gadair yn y tŷ!

Un diwrnod mi es i banic, gweld y lle mor fudur, hen lwch du ym mhob man a deud wrtha'f hun "ddoi byth i ben". Dyma droi i'r tudalennau melyn, ffonio a deud fy nghwyn wrth ddyn clên yn Y Barri. Y diwrnod canlynol daeth draw a gwraig fywiog egniol efo fo, peiriannau sugno, mopiau a digon o eli penelin. 'Mhen diwrnod roedd y lle'n lân neis. Dyna'r penderfyniad calla imi neud ers tro byd.

Erbyn yr ymddengys y llith yma - mi fyddwn wedi newid aelwyd, a'r aelwyd fu'n gartre inni am ymron i ugain mlynedd yn cael ei adael i drugaredd y gwerthwyr tai. Coblyn o job arall oedd brwshio pob dodrefnyn hynafol efo stwff lladd pry. Fe gafodd pob un ohonynt fesur helaeth o'r stwff y tu mewn a thu allan. Does ryfedd nag oes ein bod yn symud o Goed y Pry i Goed y Pry!

## CALON LÂN

**Da gan Philip Morgan a'i Fab, Cyf., allu dweud bod erbyn hyn ddau win bord 'Calon Lân'. Cyfuniad o winoedd Ewropëaidd wedi'i botelu yn yr Almaen ac o naws tebyg i Mosel yw'r 'Calon Lân' gwyn, a fu ar y farchnad ers blwyddyn a mwy. Cynnyrch Ffrainc yw'r 'Calon Lân' coch sydd newydd ddod ar y farchnad. Prif bwrpas cyflwyno'r gwinoedd hyn wedi'u labelu yn Gymraeg yw rhoi boddhad i'r bobl hynny y mae hi'n iaith gyntaf iddynt neu sy'n gyfarwydd â hi. Pris manwerth potelaid 70 centilitren o'r naill neu'r llall yw tua £2.25.**




## MYFANWY

**Gwin newydd arall â label Cymraeg arno ar restr Philip Morgan a'i Fab yw 'Myfanwy', gwin sych byrlymus a ddaw o Ffrainc. Pris manwerth potelaid 75 centilitren o'r gwin hwn fydd tua £3.25.**

*Myfanwy*

*Gwin sych byrlymus wedi'i ysbrydoli gan un o'r caneuon serch hyfrytaf.*

Mewnforiwyd gan PHILIP MORGAN a'i Fab, Caerdydd.

CYNNYRCH FFRAINC O.V.M. NÉGOCIANT A BORDEAUX 75cl.

**Ar gael oddiwrth werthwr gwin cyfagos. Am eich gwerthwyr agosaf, cysylltwch â Phillip Morgan a'r Fab (tel. isod)**

**Philip Morgan a'i Fab Cyf., (sef. 1929)**
Prif Farsiandiwr Gwin Caerdydd
126, Wyndham Crescent, Caerdydd, Teleffon 31570

---

HTV CYMRU

## Ysgrifennyddes/ Ysgrifennydd

Mae arnom angen ysgrifennyddes/ysgrifennydd i weitho i'r Rheolwr Cynorthwyol sy'n gyfrifol am raglenni newyddion, materion cyfoes, chwaraeon, addysg a rhaglenni cymdeithasol. Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus brofiad o weithio ar lefel ysgrifennyddol uwch, gyda hunan-hyder a'r gallu i weithio dan bwysau ar ei liwt ei hun.

Dylai ef neu hi fod nid yn unig yn meddu safon uchel ysgrifennyddol, ond hefyd fod â gwybodaeth drlwyr o Gymraeg a Saesneg.

Cyflog £6,036 y flwyddyn yn cynnwys atodiadau. Cyfleusterau gwaith ardderchog.

**Dylai'r ymgeiswyr cymwys ysgrifennu gan amgau manylion personol a gyrfaol llawn, gan nodi cyfeirnod DI/62 at: Y Rheolwr Staffio, HTV Cymru, Y Ganolfan Deledu, Caerdydd. CF1 9XL.**

BBC RADIO CYMRU

TALWRN Y BEIRDD

Yn wyneb poblogrwydd cynyddol y rhaglenni hyn, gwahoddir cwmniau o feirdd gwlad i ymffurfio'n dimau o 6 ar gyfer y gyfres newydd (1982-83) sydd i ddechrau fis Hydref. Ceir rhagor o fanylion o'r cyfeiriad hwn -
Talwrn y Beirdd,
BBC,
Bangor.

# O'R SEDD GEFN

FFILMIAU - dan ofal Ioan Kidd

Gyda'r holl sôn am ryfel y dyddiau hyn - yn El Salvador, ar Ynysoedd y Falkland (Malvinas) ac yn awr yn Libanus unwaith eto - braf a chalonogol oedd gweld BREAKER MORANT yn y Sherman yn ddiweddar.

Ffilm o Awstralia yw hon, un o blith nifer gynyddol o'r wlad honno, a lleoliad y stori yw De Affrica yng nghyfnod Rhyfel y Boer. Sôn a wna'r ffilm am ran byddin Awstralia yn y rhyfel ac yn arbennig am hynt tri milwr o'r fyddin honno sy'n sefyll eu prawf mewn llys milwrol yn sgîl troseddau honedig yn erbyn y gelyn. Yr achos llys yw canolbwynt y ffilm, ac wrth i bob cymeriad yn ei dro roi tystiolaeth mae cefndir y digwyddiadau a hanes y prif gymeriadau, sef y tri milwr, yn cael eu dadlennu.

Ceir perfformiadau penigamp gan Edward Woodward (Breaker Morant), Bryan Brown (milwr arall) ac yn enwedig gan Jack Thompson (y cyfreithiwr). O dipyn i beth mae'r dyn bach ffwndrus a gafodd ei ddewis ar ddechrau'r ffilm i amddiffyn y tri milwr yn troi'n gyfreithiwr huawdl â'i fryd ar sicrhau cyfiawnder, nid yn unig i'r milwyr, ond hefyd i'w wlad. Llwyddodd Thompson i bontio'r newid hwn mewn ffordd gynnil ond hynod sicr.

Mater o egwyddor yw cnewyllyn y ffilm a mater o achub bywydau'r tri milwr, ond buan y sylweddolir nad y milwyr yn unig sy'n sefyll eu prawf. Awstralia hithau sydd yn y doc a'r Ymerodraeth Brydeinig gyda'i holl rwysg a chelwydd sy'n erlyn. Ymgais yw'r ffilm hon, megis llawer o ffilmiau eraill o'r un wlad, i greu gorffennol i Awstralia a hynny trwy lygaid Awstraliaidd gyda gogwydd Awstraliaidd i'r digwyddiadau. Peth digon clodwiw yn ddiau, ond yn bwysicach na hynny hyd yn oed yn y ffilm hon yw'r neges wrtharwrol a gwrth ryfel. Fel yn GALIPOLI oferedd rhyfel sy'n cael ei bortreadu - ac mae angen hynny y dyddiau hyn i atgoffa dyn ac i'w sobri.

Dadl o blaid bywyd sydd yn BREAKER MORANT i bob pwrpas a dadl a geir yn WHOSE LIFE IS IT ANYWAY? (John Badham), ond yn wahanol i'r ffilm gyntaf mae hon yn dadlau o safbwynt arall. Mae'r ffilm yn seiliedig ar ddrama lwyfan gan Brian Clark sydd yn ei thro yn addasiad o ddrama deledu.

Mae bywyd cerflunydd ifanc (Richard Dreyfuss) yn cael ei adael yn deilchion yn dilyn damwain ffordd ddifrifol. Ar ôl y ddamwain caiff ei gipio'n syth i'r ysbyty ac er i'r meddygon lwyddo i achub ei fywyd mae e bellach wedi'i barlysu ac wedi'i ddedfrydu i oes o orwedd yn ddisymud mewn ysbyty. Fe all, sut bynnag, symud ei ben ac mae ei ymennydd mor finiog ag o'r blaen. Dyma'i gryfder, a hefyd ei fagl, oherwydd dyn deallus yw e, ac er iddo ddod i delerau â'i sefyllfa newydd am dipyn bach, ymhen ychydig daw i sylweddoli nad oes unrhyw obaith y gall fyw bywyd normal eto. Yn wir, fe â ymhellach na hynny a phenderfynu ei fod am roi terfyn ar ei fywyd.

Mae hyn yn gwbl groes i foeseg y ddau feddyg sy'n gofalu amdano, dyn (John Cassavetes) a menyw (Christine Lahti). O dipyn i beth mae Lahti yn dod i ddeall safbwynt a theimladau'r claf er nad yw'n cytuno ag ef, ond mae Cassavetes yn benderfynol o beidio ag ildio iddo. Ni all gydweld ag egwyddorion y claf o gwbl ac wrth i'r ffilm fynd yn ei blaen try'r frwydr i gadw'r claf yn fyw yn frwydr bersonol iddo ac yn fater o anrhydedd. Dyma gnewyllyn y ffilm, felly, sef, dadl resymegol Dreyfuss ar y naill law o blaid yr hawl i roi terfyn ar ei fywyd a dadl Cassavettes ar y llall yn pleidio i'r gwrthwyneb.

Mae'r hiwmor a'r ffraethineb yn wirioneddol ddifyr ar adegau ac mae perfformiad Dreyfuss yn ddisgybledig iawn. Rwy'n cofio gweld Simon Ward yn chwarae'r un rhan yn y ddrama lwyfan pan ddaeth i'r Theatr Newydd rai blynyddoedd yn ôl, ac er cystal oedd ei berfformiad yntau, braf oedd gweld ymdriniaeth gwbl wahanol gan Dreyfuss yn y ffilm hon. Cafwyd perfformiadau da gan nifer o'r mân gymeriadau hefyd ac yn enwedig gan Thomas Carter a oedd yn chwarae rhan y porthor croenddu a Bob Balaban, y cyfreithiwr.

Mae hon yn ffilm dda ar unrhyw gyfrif ond yr hyn sy'n ei gwneud yn ffilm o bwys efallai yw'r ddadl ganolog a'r cwestiwn : A oes gan glaf yr hawl i farw o'i wirfodd?

Gyda llaw, mae dwy o'r tair ffilm a grybwyllwyd uchod, sef BREAKER MORANT (Beresford) a GALLIPOLI (Weir) yn cael eu dangos yn Chapter ym mis Awst. Ac yn ystod misoedd yr haf mi fydd gwledd o ffilmiau yn sinemau'r ddinas : LOLA (Chapter), MISSING (ABC), THE COAL MINER'S DAUGHTER (Chapter), PRIEST OF LOVE (Sherman), THE TIN DRUM (Chapter), REDS (Chapter) - gweler Dinesydd Mehefin. Am ragor o wybodaeth gweler Sherman Times a thaflen Chapter (Gorff./Awst).

## NEWID AELWYD


Dymunwn yn dda i deulu Coed y Pry yn y Coed y Pry newydd. Gwyddom y bydd y croeso yr un mor wresog ar yr aelwyd newydd yn 3 Llandennis Ave.

SUE WILLIAMS NANNIES

Nannies a Chynorthwywyr Mamau, Llawn a Rhan Amser, Cyfnodau hir a byr.
Tel. 612123 (ar ôl 4 p.m.)

HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD
561788

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn     RHIF 24



Ar Draws:

1. Ffordd i ddianc o faelfa Dewi Sant (6,3)
6. Ai pregethau dof sy'n achosi helbulon? (13)
11. "Mawr yn -----angau'i hun" (Titus Lewis) (5)
12. Rhaid cnoi cil ar hwn (5)
13. Cyfeiriad newydd y post a'r llanw (5)
16. Dymuno a ddaw o eiddo arall (6)
17. Gwyddor yr Wylfa (6)
18. "Rhodder hawddamor----- Cnawd o lin ein cenedl ynt"(5)
19. Affliw d--- o sustem y Normaniaid (6)
20. Gwagedd yw ei fywyd(6)
21. Mae'n digwydd ynghanol cyfnod afiach a dihwyl(5)
24. Prif afon Pacistan(5)
26. Cyhoeddwr ewyllys y duwiau (5)
27. Ail het fawr i un anniben a geir o ragor-fanteision awdurol (13)
28. Symud y twmpathau?(9)

I Lawr:

2. Defnydd plaen (5)
3. Rhai sy'n udo mewn man ofnadwy, ryfedd (6)
4. Trefnu siar o ffagot a phys i ddwyn ar gof(6)
5. Etyb (5)
6. Nid son am arwydd cristnogaeth, ond mynegi anghytundeb (13)
7. Adar go frith yn gwneud gwallau?(13)
9. Dyma ffaith am her ysgytwol sy'n nodweddu cyflwr bodau meidrol (9)
10. Gosod morthwyl trwm o flaen tyrfa, a thynnu allan yr hyn sy'n od.
10. Gosod morthwyl trwm o flaen tyrfa, a thynnu allan yr hyn sy'n od. Wele'r mintai sy'n hebrwng. .........(9)
13. .....ac yma mintai o ddrychiolaethau mewn cynhebrwng (5)
14. Y golch afler o gwmpas (5)
15. Mysgu (5)
22. Creadur yr aden (6)
23. Rwyf yn chwarae (6)
25. Nid yr hen nodiant(5)
26. "Beth .. ... y gwynt o'r De Digon hawdd fydd newid lle (2,3)

DATRYSIAD CROESAIR RHIF 23

Ar Draws:
1. CWNNWYLL Y LLYGAD; 10. O'I GWBLHAU; 11. DOLER; 12. RAMOTH; 13. NEWIDADWY; 14. CAERLLION; 16. I DOCIO; 19. TRAWST; 20. GOBENNYDD; 22. NODWEDDION; 24. GWRDA; 25. EGLUR; 26. DADFEILIA; 27. DANADL POETHION

I Lawr:
2. ARGYMHELLA; 3. NABOTH; 4. YR HINIOG; 5. YMUNWN; 6. YN DOD ADRE; 7. AELOD; 8. TORRI CYTUNDEB; 9. ARGYHOEDDIADAU; 15. LLESTEIRIA; 17. CONTRALTO; 18. POENYDIO; 21. FFIWDAL; 23. DALFA; 24. GWERTH

o dud. 8).
At y rhain, y mae dros gant o gylchoedd meithrin neu unedau mam-a'i-phlentyn yn y dalaith - 17 yng Ngwent, 19 yn Ne Morgannwg, a thua 80 ym Morgannwg Ganol. Ac y mae 'na ragor yn yr arfaeth.

Rhaid bod hyn yn destun balchder a llawenydd mawr i'r bobl megis rhieni a chydweithwyr eraill a fu'n gwasgu am gael yr ysgolion hyn, a thrwy lwyddo, a greodd chwyldro ym myd addysg Gymraeg. Does ryfedd yn y byd felly eu bod yn bwriadu dangos eu llawenydd i bawb drwy gynnal gŵyl ar y 9fed a'r 10fed o Orffennaf eleni - Gŵyl Ysgolion Cymraeg 1982. Dangos eu llawenydd, ac ar yr un pryd, dangos i bawb mor ysgubol o lwyddiannus y mae'r mudiad y maen nhw wedi credu ynddo, a gweithio'n ddygn drosto am dros ddeng mlynedd ar hugain.

Cynhelir yr ŵyl yng Nghaerdydd eleni, gan ddechrau nos Wener, 9fed o Orffennaf â disco i'r plant hynaf yn Top Rank pan ddaw perfformwyr o'r grwpiau blaenaf, megis Geraint Jarman yno.

Dydd Sadwrn, cynhelir gorymdaith fawr drwy Gaerdydd pan ddisgwylir gweld plant o bob oedran o bob math o ysgol yn cymryd rhan. Bydd yr orymdaith, wedi cerdded drwy ganol y ddinas, yn mynd hyd at feysydd Pontcanna, ac yno fe fydd amrywiaeth o weithgareddau ac adloniant i ddifyrru pawb hyd at ddiwedd y dydd. Diwrnod mawr fydd hyn yn hanes cyffrous yr Ysgolion Cymraeg yn ein hardal ni, diwrnod y gobeithir gweld ei debyg yn flynyddol yn y dyfodol, a diwrnod y dylai pob un ohonom ymfalchïo ynddo, gymryd rhan ynddo, a gwneud ein gorau i'w gefnogi.



Cyhoeddwyd gan Bwyllgor y Dinesydd
Argraffwyd gan Fingerprints(TU), 56 Mackintosh Place, Caerdydd